



C E R A M I C
S E R I E S

susan halls

A B E R Y S T W Y T H A R T S C E N T R E

December 1993
number 63

Question - what have ceramic shoes and boots got in common with dinosaurs and animals? It sounds like one of those teasers on Radio Four's Round Britain Quiz, where erudite and knowing scholars unravel apparently disparate and contradictory facts. The answer lies in the work of Sue Halls, one of the younger generation of handbuilders who make objects based on the natural and manufactured world. Her latest exhibition focuses on near life sized boots and shoes and on dinosaurs, themes which share an animal origin but which have been transformed, either through history and archaeology or industry.

Sue Halls is probably best known for her animals, creatures which do not seek to replicate only the appearance of animals but to express some sense of animal logic. Some of this magic is evident in the un-exhibition surroundings of her studio. Pieces sit on shelves by the kiln waiting to be sent off for exhibition or for the next stage of making.


A cardboard box held five water birds to all intents and purposes happily nesting inside bubble wrap, looking for all the world as if this was their natural habitat. Handbuilt and fired in sawdust to a rich, dark black, some of the surface had been masked over so that bands of white picked up and enhanced the form. 'What I want to catch is some sense of the truth about animals to capture their vitality' is how Sue Halls describes it, indicating what spurs her on. Since her childhood she has been fascinated with animals. 'As a town dweller I was only allowed to have domestic animals like cats, rabbits and guinea pigs, though I would have liked more. I was always intrigued by them and have drawn, painted and modelled them for as long as I can remember.'

At Medway, her local art school, she cheerfully enrolled on the ceramics course where she learnt the basic making techniques, throwing, handbuilding and so on. It was only in her last two years, having acquired basic skills, that she felt ready to make animals.

From Medway she was accepted on the two year MA course at the Royal College of Art. After the culture shock of a very different sort of learning environment - 'where work philosophy was emphasised as much as product' - she settled down to rethink the forms she was making, the ideas she was following and the reasons for making them in the first place. It was, she says, a highly stimulating two years which passed all too quickly.

From a primary concern with the appearance and detail, she started to abstract from what she saw, aiming to capture the qualities of animals with minimum detail. A group of recently made pinch pots have faces of pug-like dogs on the base created with the simplest of modelling, and with an uncanny realness appear life-like and convincing. 'I make these when I'm not sure what to do, but I feel I must do something, they are a way of loosening up while still producing'. Once modelled, the animals are fired in any way which seems suitable, a characteristically broad Sue Halls approach. A large gas-fired kiln is used for stoneware reduction and biscuit, though she now complains that it is not large enough for the pieces she would like to make; an electric kiln is used for quick biscuit firing and stone ware, while a variety of ceramic fibre kilns are used for raku and sawdust.

Sue Halls has a near perfect setting for her studio, reminiscent of the old artisan potteries which were built round a square because they had involved farms. Though in London, her studio is in an unexpectedly rural setting - a converted stable with what could be a barn door. 'It's wonderful in summer, but in winter it's freezing and needs a terrific amount of heat to make it workable'. The generous space is an undoubtedly attraction, and so far Sue has resisted the temptation to share it with another potter even though this would mean lower costs.



Animals fit in easily to this pastoral setting, but the footwear literally enters another world. Her interest in boots and shoes came during a visit to the Victoria and Albert Museum. In one of the large showcases in the costume court was an arrangement of boots and shoes from the 17th and 18th centuries. ' I was immediately intrigued by the form and knew instantly I wanted to translate them into clay. It was the shapes which caught my attention, and the way they were made added to their interest.'


Footwear features virtually as much in art as life. Lisa Millroy's eerie shoe paintings come to mind, while Imelda Marckos' acquisition of countless pairs of expensive footwear indicates the fetishistic aspects of footwear. Freud and his followers had a merry time contemplating the sexual meanings of shoes and boots, and it is tempting to place such readings on Sue Halls' ceramic creations, but it is a dimension which she says is of little concern to her.


Nevertheless, there are uncanny echoes of use and wear in these ceramic shoes, making them more than mere objects without meaning. Like gloves and jeans, shoes quickly come to bear the character of their wearer, retaining the shape of the body, in worn forms. This is clearly evident for example in the tall, high legged boots which seem almost on the point of walking. Some incorporate folded slabs of clay, thrown components such as heels, and pulled strap handles used to form sandals, the hybrid manufacture and contrasting finish adds to their individuality. The variety of shapes and ingenious making methods introduces us to a strange intriguing world.

In contrast, Sue Halls' latest theme - dinosaurs - seems a move in a very different direction. It was a move inspired by her visit to Spielberg's blockbuster Jurassic Park. ' I loved the film, not so much the story but the animation - it's brilliant - and it confirmed my interest in dinosaurs'. The three pre - historic beasts I saw were the first experiments. Simply made from folded slabs of clay with modelled details, the creatures have all the sinister qualities associated with these semi - mythical beasts. These three were innocently lying on their sides on a pad of foam, waiting to be fired. Their uncanny, out - of - world appearance, their bulky bodies, the tiny rudimentary limbs, conjures up a time of which we still have little knowledge and so are free to use up our own imagination.

Sue Halls is a regular visitor to the zoo. ' I now have to go with blinkers on to make myself to look at one particular species, otherwise I wander all over, but just being in the presence of animals is almost enough to tell me about them. I have a good visual memory and am capable of absorbing particularities. It is my own emotional response which makes this possible.' She is also a keen observer of the natural and created world in which the creatures of pre - history blend with footwear, objects to recognise and respond to - as well as stir and inspire the imagination.

Emmanuel Cooper





C Y F R E S
G E R A M E G

susan halls

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH

Rhagfyr 1993
rhif 63


Cwestiwn - beth sy'n gyffredin rhwng esgidiau ceramig bach a mawr a dinosoriaid ac anifeiliad? Mae'n swnio fel un o'r cwestiynau prifoclyd hynny ar 'Round Britain Quiz' ar Radio Pedwar, lle mae ysgolheigion dysgedig a deallus yn datrys ffeithiau sy'n ymddangos yn gwbl wahanol a chroes i'w gilydd. Mae'r ateb i'w gael yng ngwaith Sue Halls, un o'r genhedaeth ieuengaf o lunwyr â llaw sy'n cynhyrchu gwrthrychau sciliedig ar y byd naturiol a byd pethau wedi eu cynhyrchu. Mae ei harddangosfa ddiweddaraf yn canolbwntio ar esgidiau mawr a bach llawn faint bron ac ar ddinosoriaid, themâu sy'n rhannu tarddiad anifeilaid ond sydd wedi eu trawsffurfio, naill ai drwy hanes ac archaeoleg neu ddiwydiant.

Mae Susan Hall o bosibl yn fwyaf adnabyddus am ei hanifeiliaid, creaduriaid sydd nid yn unig yn ceisio atgynhyrchu ymddangosiad anifeiliad ond yn cyfleo rhyw ymdeimlad o swyn anifeiliad yn ogystal. Mae peth o'r swyn hwn yn cael ei amlygu yn amgylchoedd diar-ddangosfa ei stiwdio. Ceir eitemau yn sefyll ar silfgoedd ger yr odyn yn aros i'w hanfon i ffwrdd i'w harddangos neu am y cam nesaf yn eu gwneuthuriad. Mae bocs carbord yn dal pump o adar dŵr sydd i bob pwrrpas yn nythu'n ddiddan mewn papur swigod, ac yn edrych yn union fel pe baent yn eu cynefin naturiol. Maent wedi eu llunio â llaw a'u tanio mewn blawd llif nes eu bod yn lliw tywyll cyfoethog, gyda rhannau o'r arwyneb yn cael eu gorchuddio i greu bandiau gwynion sy'n amlygu'r ffurf. 'Yr hyn rwyf am ei gyfleo yw rhyw ymdeimlad o'r gwir am anifeiliad, - atgynhyrchu eu bywiogrwydd,' yw ffordd Sue Halls o ddisgrifio'r hyn sy'n ei symbylu i ddal ati. Mae hi wedi cael ei swyno gan anifeiliad ers ei phlentyndod. 'Fel un oedd yn byw mewn tref, dim ond anifeiliad domestig fel cathod, cwningod a moch cwta y gallwn i eu cadw, er y buaswn wedi hoffi cael mwy. Rydw i bob amser wedi cael fy swyno ganddynt ac rwyf wedi tynnu eu lluniau, eu peintio neu wneud modelau ohonynt cyn belled yn ôl ag y gallaf gofio.'

Yn Medway, ei hyssol gelf leol, cofrestrodd yn llawen ar y cwrs cerameg lle dysgodd y technegau sylfaenol, llunio ar y droell, llunio â llaw ac ati. Dim ond yn ei dwy flynedd olaf ar ôl meistrolï'r sgiliau sylfaenol y teimlai'n barod i lunio anifeiliad. O Medway cafodd ei derbyn ar y cwrs MA dwy flynedd yn y Coleg Celf Brehinol. Ar ôl y sioc ddiwylliannol o brofi amgylchfyd dysgu cwbl wahanol - 'le cai atroniaeth gwaith ei bwysleisio yn llawn cymaint â chynnrych' - aeth ati i ailystyried y ffurfiâu roedd hi'n eu llunio, y syniadau roedd hi'n eu harddel a'i rhesymau dros eu gwneud yn y lle cyntaf. Roedd yn ddwy flynedd llawn symbyliad, meddai hi, ac aeth yr amser heibio yn llawer rhy gyflym.

Yn dilyn diddordeb cychwynnol mewn ymddangosiad a manylion, dechreuodd hagiaethu'r hyn a welai, gan ymdrechu i gyfleo nodweddion anifeiliad gyda chyn lleied o fanylion ag y gallai. Mae gan grŵp o botiau bys a bawd a wnaeth yn ddiweddar wynedau cŵn trwynau smwt ar gyrrif sydd wedi eu modelu yn y modd symlaf posibl, ac maent yn ymddangos yn argyhoeddiadol a llawn bywyd yn eu realrwydd anhygoel. 'Byddaf yn gwneud y rhain pan nad wyf yn sicr beth i'w wneud, ond yn teimlo bod yn rhaid i mi wneud rhywbeth; maent yn ffordd o ymlacio tra'n parhau i gynhyrchu.' Wedi iddynt gael eu modelu caiff yr anifeiliad eu tanio mewn unrhyw fodd sy'n ymddangos yn addas, dull eang sy'n nod-weddiadol o Sue Halls. Defnyddir odyn llosgi nwyr mawr ar gyfer rhydwytho crochenwaith caled a thanio bisged, er ei bod yn cwyno erbyn hyn nad yw'n ddigon mawr ar gyfer yr eitemau yr hoffai eu gwneud; defnyddir odyn trydan ar gyfer tanio bisged cyflym a crochenwaith caled, tra y defnyddir amrywiaeth o odynau ffibr ceramig ar gyfer racw a blawd llif.

Mae stiwdio Sue Halls mewn lleoliad perffaith bron sy'n dwyn i gôf hen grochendai crefft a oedd wedi eu codi o



amgylch sgwâr am mai ffermydd oedd ynt yn wreiddiol. Er ei bod yn Llundai, mae ei stiwdio mewn lleoliad annisgwyl o wledig - stabl wedi ei haddasu gyda drws a allai fod yn ddrws sgrubor. 'Mae'n wych yn yr haf, ond mae'n rhewllyd yn y gaeaf ac yn gwyn am beth wmbredd o wres cyn y gellir gweithio yma.' Mae'r gofod helaeth yn atyniad diamheulol, a hyd yma mae Sue wedi gwrtsefyll y demtasiwn i rannu'r lle gyda chrochenydd arall er y byddai hymny'n golygu llai o gost.

Mae anifeiliaid yn gweddu'n rhydydd i'r cefndir gwledig hwn, ond mae'r esgidiau yn llythrennol yn rhan o fyd arall. Dechreuodd ei diddordeb mewn esgidiau yn ystod ymwieliad ag Amgueddfa Fictoria ac Albert. Yn un o'r blychau arddangos mawr yn adran y gwisgoedd roedd trefniant o esgidiau o'r ail ganrif ar bymtheg a'r dddeunawfed ganrif. 'Cefais fy swyno ar unwaith gan ffurfiau a gwyddwn yn syth fy mod eisiau eu trosi i glai. Yffurfiau a dynnodd fy sylw ac roedd y modd roedd ynt wedi cael eu gwneud yn ychwanegu at eu diddordeb.'

Mae esgidiau yn ymddangos bron gymaint mewn celfyddyd ag y maent mewn bywyd. Daw peintiadau iasol Lisa Millroy o esgidiau i'r cof, tra mae casgliad Imelda Marckos o nifer enfawr o barau o asgidiau costus yn amlygur' agweddau eilunol at esgidiau. Cafodd Freud a'i ddilynwyr amser difyr yn ystyried ystyron rhywiol esgidiau, ac mae'r demtasiwn i ddarllen ystyron o'r fath yng nghreadigaethau ceramig Sue Halls, ond mae'n ddimensiwnnad yw o fawr ddiddordeb iddi, meddai hi.

Er hymny, mae adleisiau anhygoel o ddefnydd a gwisg yn yr esgidiau ceramig hyn, sy'n eu gwneud yn fwy na gwrthrychau diystyr yn unig. Yn yr un modd à jeans neu fenyg, daw esgidiau yn fuan i gymryd arnynt gymeriad y sawl sy'n eu gwisgo, gan gadw ffurf y corff yn y ffurfiau a wisgyd. Mae hyn yn gwbl amlwg, er enghraifft, yn yr esgidiau uchel gyda choesau hirion sy'n ymddangos fel pe baent ar fin cerdded. Mae rhai ohonynt yn ymgorffori slabiau plyg o glai, rhannau megis sodlau wedi eu llunio ar droell, a dolenni strapiau wedi eu tynnu i lunio sandalau, ac mae'r cynhyrchu cymysgryw a'r gorffeniad gwrthgyferbyniol yn ychwanegu at eu hunigoliaeth. Mae'r amrywiaeth ffurfiau a'r dulliau cynhyrchu celfydd yn ein harwain i fyd dieithr a dyrys.

Mewn gwrthgyferbyniad, mae thema ddiweddaraf Sue Hall - dinosoriaid - ym ymddangos yn symudiad i gyfeiriad cwbl wahanol. Symudiad ydyw a ysbrydolwyd pan aeth i weld ffilm hynod boblogaidd Spielberg, Jurassic Park. 'Roeddwn yn hoffi'r ffilm, nid yn gymaint y stori ond yr animeiddio - mae'n wych - ac fe atgyfnherthodd fy niddordeb mewn dinosoriaid.' Y tri bwystfil cynhanesiol a welais i oedd yr arbrofion cyntaf. Mae'r holl nodweddion ysgeler a gysylltir à'r bwystfilod hanner-chwedlonol hyn yn perthyn i'r creaduriaid sydd wedi eu llunio o slabiau plyg o glai gyda manylion wedi eu modelu arnynt. Roedd y tri hyn yn gorwedd yn ddiniwed ar eu hochrau

ar bad o rwber sbwng, yn aros i'w rhoi yn yr odyn.

Roedd eu hymddangosiad arallfydol, hynod, ue cyrff swmpus, yr aelodau bychain, elfennol, yn consurio amser nad oes gennym fawr o wybodaeth amdano ac yr ydym o'r herwydd yn rhydd i ddefnyddio ein dychymyg wrth feddwl amdano.

Mae Sue Halls yn ymwelydd rheolaidd à'r sŵ. 'Erbyn hyn mae'n rhaid i mi fynd gyda ffrwyn ddall ar fy llygaid er mwyn fy ngorfodi fy hun i edrych ar un rhywogaeth arbennig, oni bai am hymny byddwn yn crwydro i bob-man, ond mae dim ond bod ym mhresenoldeb anifeiliaid bron yn ddigon i ddweud wrthyf amdanynt. Mae gennyd gof gweledol hynod o dda ac rwy'n gallu amsugno manylion penodol. Fy ymateb emosiynol fy hun sy'n gwneud hyn yn bosibl.' Mae hefyd yn sylwedydd craff ar y byd naturiol a'r byd gwreuthuredig lle mae creaduriaid cynhanesiol yn cyfuno à'r esgidiau, gwrthrychau i'w hadnabod ac i ymateb iddynt - yn ogystal ag i gyffroi ac ysbrydoli'r dychymyg.

